# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones.
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG (YNYS MÔN A GWYNEDD)** | **SPECIAL EDUCATIONAL NEEDS JOINT-COMMITTEE (ANGLESEY & GWYNEDD)** |
| **DYDD GWENER, 24 MEHEFIN 2016 am 10.30 y bore** | **FRIDAY, 24 JUNE, 2016 at 10:30 a.m.** |
| **YSTAFELL GLYDER FAWR , SWYDDFEYDD PENRALLT , CAERNARFON** | **GLYDER FAWR ROOM, PENRALLT OFFICES, CAERNARFON** |
| **Swyddog Pwyllgor** — **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU/MEMBERS:**

Cynghorwyr/Councillors:

**CYNGOR GWYNEDD COUNCIL**

Annwen Hughes, Elin Walker Jones, Linda Ann Jones, Beth Lawton, E. Caerwyn Roberts
Peter Read, Eirwyn Williams.

**CYNGOR SIR YNYS MÔN/ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

Derlwyn Hughes, Trefor Lloyd Hughes, Llinos M. Huws, Gwilym O. Jones,
R. Meirion Jones, J. Arwel Roberts, Ieuan Williams

**YR EGLWYS/THE CHURCH**

Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales
Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church
Eglwysi Rhyddion/Free Churches

# **R H A G L E N**

**1** **CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd i'r Cyd-Bwyllgor.

(Mae Cyfansoddiad y Cyd-Bwyllgor yn dweud y penodir Aelod o un Awdurdod yn Gadeirydd ac Aelod o'r Awdurdod arall yn Is-Gadeirydd ac i'r gwrthwyneb y tymor canlynol fel bydd y gadeiryddiaeth a'r is-gadeiryddiaeth yn newid rhwng y ddau awdurdod bob yn ail)

*(Mae'r Gadeiryddiaeth wedi cael ei dal am y cyfnod dwy flynedd blaenorol gan y Cynghorydd E. Caerwyn Roberts o Gyngor Gwynedd)*

**2** **IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd i'r Cyd-Bwyllgor.

*(Mae'r Is-Gadeiryddiaeth wedi cael ei dal am y cyfnod dwy flynedd blaenorol gan y Cynghorydd Llinos Medi Huws o Gyngor Sir Ynys Môn)*

**3** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**4** **COFNODION CYFARFOD 18 MAWRTH, 2016** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Cyd-Bwyllgor AAA a gynhaliwyd ar 18 Mawrth, 2016.

**5** **YR UNED DDARPARU AAA** (Tudalennau 7 - 10)

Cyflwyno adroddiad y Prif Seicolegydd Addysgol ar waith yr Uned Ddarparu am dymor y Gwanwyn 2016.

**6** **DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2015/16** (Tudalennau 11 - 16)

Cyflwyno Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyd-Bwyllgor am 2015/16.

**7** **CYFRIFON TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR AAA AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH, 2016** (Tudalennau 17 - 28)

Cyflwyno cyfrifon cyn-archwiliedig terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn gyllidol yn diweddu 31 Mawrth, 2016.

**8** **ADOLYGIAD AR Y CYD O'R STRWYTHUR BARTNERIAETH**

Cyflwyno diweddariad ar gynnydd.

**9** **CYFARFOD NESAF**

Dydd Gwener, 23 Medi, 2016 am 2:00 y. p. yn Llangefni *(cyfarfod i ystyried y cyfrifon archwiliedig os bydd angen)*

This page is intentionally left blank

# CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth, 2016

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd E. Caerwyn Roberts (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Llinos M. Huws (Cyngor Sir Ynys Môn) (Is-gadeirydd)

**Cyngor Gwynedd**

Y Cynghorydd Beth Lawton

**Cyngor Sir Ynys Môn**

Y Cynghorwyr Derlwyn Hughes, Trefor Lloyd Hughes, Gwilym O. Jones, R. Meirion Jones, Ieuan Williams

**Yr Eglwys**

Mr Rheinallt Thomas (Eglwysi Rhyddion)

**WRTH LAW:**

Prif Seicolegydd Addysg (Mr Gareth Payne)
Pennaeth Addysg (Cyngor Gwynedd) (Mr Arwyn Thomas)
Pennaeth Dysgu Gydol Oes (CSYM) (Mrs Delyth Molyneux)
Uwch Reolwr Cynhwysiad (Cyngor Gwynedd) (Mr Gwern ap Rhisiart)
Uwch Reolwr Safonau Ysgolion (CSYM) (Bethan Morris Jones)
Swyddog ADY (CSYM) (Dr Einir Thomas)
Rheolwr Prosiect (Cyngor Gwynedd) (Eleri Llewelyn Owen)
Uwch Gyfrifydd Addysg (Cyngor Gwynedd) (Mrs Kathy Bell)
Swyddog Pwyllgor (CSYM) (Ann Holmes)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd J. Arwel Roberts (CSYM)

---

DRAFT

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod ac estynnodd groeso arbennig i'r Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes a oedd yn bresennol ar ôl cyfnod o salwch. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Cyd-bwyllgor fod y Cynghorydd Peter Read dal yn wael ac ar ran ei gyd Aelodau estynnodd ei ddymuniadau gorau iddo am ei adferiad. Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at absenoldeb nifer o gynrychiolwyr Gwynedd ar y Cyd-bwyllgor ac eglurodd bod hynny o ganlyniad i gyfarfod arbennig o Gyngor Gwynedd a oedd wedi'i drefnu ar gyfer y bore yma.

### 1 DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

### 2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 20 TACHWEDD, 2015

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd, 2015 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

### 3 ADOLYGIAD AR Y CYD O'R STRWYTHUR PARTNERIAETH

Cyflwynwyd, er gwybodaeth ac i'w ystyried gan y Cyd-bwyllgor, ddatganiad ar y cyd gan Swyddogion Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn amlinellu'r trefniadau cydweithio arfaethedig rhwng y

ddau gyngor ar gyfer darparu Strategaeth ar y Cyd i fynd i'r afael yn effeithiol ac yn effeithlon ag anghenion dysgu ychwanegol disgyblion a phobl ifanc Gwynedd ac Ynys Môn. Byddai'r strategaeth yn cael ei seilio ar ailfodelu a chryfhau'r bartneriaeth sy’n bodoli ar hyn o bryd rhwng y ddau gyngor a byddai'n cynnwys yr holl ystod o wasanaethau a darpariaethau.

Rhoddwyd gwybod i'r Cyd-bwyllgor fod swyddogion o Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd ers dechrau mis Ionawr, 2016 a bod y datganiad wedi’i lunio o’r cychwyn i gadarnhau'r cydweithio. Daethpwyd i gytundeb i gydweithio ar y blaenoriaethau a restrir yn y datganiad. Mae'r datganiad yn cyfeirio hefyd at gynnydd cynigion trwy brosesau democrataidd priodol y ddau gyngor – sef, yn achos Gwynedd, canlyniad cyfarfod y Cabinet ar 19 Ionawr, 2016 y cyflwynwyd y Strategaeth ADY a Chynhwysiad iddo ac, yn achos Ynys Môn, adroddiad a gyflwynwyd i’r Pwyllgor Gwaith ar 14 Mawrth yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y cydweithio a beth fyddai hynny’n ei olygu. Mae swyddogion o'r ddwy sir wedi cyfarfod yn wythnosol ers mis Ionawr i greu Strategaeth ar y Cyd o fewn dogfen gynhwysfawr sy’n ymhelaethu ar y gwasanaethau unigol. Bydd y ddogfen yn darparu eglurder ar rolau ac atebolrwydd, yn ogystal â llywodraethiant ac ymgysylltu. Yn ogystal, darperir esboniad manwl o nodau, amcanion, mesuriadau, mynediad a strwythur staffio pob gwasanaeth. Mae'r meysydd gwasanaeth yn cwmpasu'r rheini a nodir yn y datganiad ac maent wedi eu rhannu ar sail Cynhwysiad, Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Arweinyddiaeth a Chydlynu.

Ymhelaethodd Uwch Reolwr Cynhwysiad Cyngor Gwynedd a Swyddog ADY Cyngor Sir Ynys Môn ar y cynigion ar gyfer cydweithio drwy dynnu sylw at yr ystyriaethau a ganlyn -

- Y cyd-destun ehangach, gan gynnwys newidiadau deddfwriaethol sylweddol sy'n digwydd yn y maes ADY a’r heriau cyllidebol y mae awdurdodau lleol yn parhau i’w hwynebu; roedd y rhain yn ffactorau wrth ysgogi adolygiad o ba mor effeithiol yw’r gwasanaethau o ran mynd i’r afael ag anghenion plant a phobl ifanc a chanddynt ADY a diwallu’r anghenion hynny.
- Mae'r ddau awdurdod wedi cytuno i adolygu'r trefniant Cyd-bwyllgor AAA cyfredol ac i wneud hynny mewn dau gam. Bwriedir gweithredu Cam 1 (ffurfio’r Tîm Integredig craidd ac ailfodelu'r gweithlu i gyd-fynd â gofynion y ddwy sir o fewn timau penodol) erbyn mis Medi, 2016 a gweithredu Cam 2 (cwblhau'r ailfodelu staff ac adolygu’r trefniadau a’r meini prawf ar gyfer datganoli cyllid) erbyn mis Medi, 2017.
- Bydd cydweithredu ar y sail ddiwygiedig newydd yn wahanol i'r trefniant sy’n ei le ar hyn o bryd a bydd yn golygu ffurfio timau arbenigol i fod ar gael; ehangu'r bartneriaeth i gynnwys meysydd cynhwysiad ehangach megis lles, presenoldeb, Saesneg fel iaith ychwanegol a Phlant sy’n Derbyn Gofal; llunio meini prawf a disgwyliadau eglurach ar gyfer ysgolion a staff o ran yr hyn i’w ddarparu, sut y caiff ei ddarparu a chan bwy, a rhannu swyddogaethau ar lefel swyddogion yn ogystal â mewn perthynas â thimau arbenigol o athrawon / cynorthwywyr dysgu.
- Wrth amlinellu trefniadau llywodraethu'r bartneriaeth newydd, rhaid ystyried sut y caiff anghenion eu diwallu ar lefel swyddog proffesiynol ac aelodau etholedig yn ogystal ag o ran sgriwtini. Cynigir dull o lywodraethu ar y cyd a fydd yn sicrhau y gellir cyflawni blaenoriaethau strategol y ddwy sir yn y meysydd ADY a Chynhwysiad; atebolrwydd clir i weithdrefnau corfforaethol y ddwy sir a gwasanaethau dwyieithog effeithiol ac effeithlon.
- Bydd rheolaeth ddeuol mewn grym yn ystod y cyfnod trosiannol wrth i drefniadau drosglwyddo o fodel y Cyd-bwyllgor AAA cyfredol i Bartneriaeth ADY newydd Gwynedd a Môn. Bydd angen llunio cytundeb ffurfiol rhwng yr awdurdodau i sefydlu'r bartneriaeth ac ymhlith pethau eraill, ei swyddogaethau; adnoddau ac ymrwymiadau ariannol, trefniadau monitro perfformiad a llywodraethiant.
- Disgwylir y bydd nifer o wahanol fanteision yn sgil y cydweithio, gan gynnwys codi safonau, mynediad at arbenigedd, gwell effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd, argaeledd darpariaeth iaith Gymraeg yn ogystal â meithrin gwydnwch.
- Bydd sylw priodol yn cael ei roi i flaenoriaethau’r ddwy sir ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad.
- Roedd ailddiffinio'r gwasanaeth ADY yn anochel o ganlyniad i ddeddfwriaeth newydd yn y maes a bydd nawr yn digwydd fel un o'r camau i'w cymryd fel rhan o'r rhaglen o weithredu mesurau ar gyfer ADY a Gwasanaethau Cynhwysiad hefyd.
- Bydd y camau nesaf yn golygu cydweithio wrth ailfodelu'r gweithlu; cynllunio'r trefniadau ar gyfer y bartneriaeth ddiwygiedig newydd a rhannu gwybodaeth â'r holl randdeiliaid perthnasol.

DRAFT

Ystyriodd y Cyd-bwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol -

- Roedd y Cyd-bwyllgor yn croesawu ymrwymiad y ddwy sir i barhau â'r bartneriaeth ar ei newydd wedd, sef partneriaeth a sefydlwyd yn wreiddiol yn 1996 pan ffurfiwyd y Cyd-bwyllgor AAA ac sydd wedi rhoi nifer o fanteision i Wynedd ac Ynys Môn yn y maes anghenion addysgol arbennig yn y blynyddoedd ers ei sefydlu.
- Gofynnodd y Cyd-bwyllgor am eglurhad ar yr amserlen ar gyfer rhoi'r newidiadau ar waith fel y cynigiwyd. Hysbyswyd y Pwyllgor fod Pwyllgor Gwaith CSYM wedi cymeradwyo cydweithio â Gwynedd i gytuno ar fanylion y trefniant partneriaeth newydd yn ei gyfarfod ar 14 Mawrth ac mai'r bwriad yn awr felly yw dod â chynllun manylach o strwythur y bartneriaeth i Bwyllgor Gwaith CSYM ym mis Mehefin, 2016. Mae'r newidiadau hyn wedi mynd yn bellach trwy'r broses ddemocrataidd yng Nghyngor Gwynedd. Cynigir bod y strwythur staff newydd yn cael ei roi ar waith ym mis Medi 2016 ac yn cael ei gwblhau'n derfynol yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17.
- Gofynnodd y Cyd-bwyllgor am eglurhad ar y risgiau sy'n gysylltiedig â sefydlu'r bartneriaeth newydd, yn arbennig felly yn wyneb yr amcan o ehangu cylch gwaith y bartneriaeth i gynnwys meysydd cynhwysiad eraill ac i sicrhau arbedion o 10% neu £500k dros ddwy flynedd i'w gwireddu'n llawn erbyn 2018/19. Hysbyswyd y Pwyllgor mai un o'r risgiau i awdurdodau lleol ar lefel genedlaethol ydi'r diffyg manylder am y gyllideb ar gyfer pobl ifanc hyd at 25 oed er bod y ddeddfwriaeth newydd (y Mesur Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribwinlys Addysg (Cymru)) yn cynnwys y grŵp oedran hwn, ynghyd â'r diffyg manylder ynghylch y cyfrifoldeb ac ar bwy mae'r cyfrifoldeb hwnnw'n disgyn. Mae yna heriau lleol wedyn mewn perthynas â chynllunio cyllidebau; y trafodaethau ar y cyd sydd wedi digwydd ac sydd wedi arwain at gyd-ddealltwriaeth o natur ac anghenion y disgyblion o fewn y ddwy sir a'u hardaloedd daearyddol penodol. Disgwylir y bydd gweithio mewn partneriaeth yn creu mwy o wydnwch ar draws ardaloedd y ddau awdurdod yng nghyswllt ADY a chynhwysiad. Un o'r risgiau mwyaf sylweddol yw yng nghyd-destun monitro perfformiad sydd bellach yn rhoi ystyriaeth i berfformiad pob plentyn ar draws y system. Bydd y gwaith y mae'r ddau awdurdod yn ei wneud o ran ADY yn allweddol felly, o ran statws cenedlaethol yr awdurdodau mewn perthynas â chynhwysiad ac ansawdd yr addysg a ddarperir i blant o bob gallu.
- Gofynnodd y Cyd-bwyllgor am eglurhad ar ei rôl yn y bartneriaeth newydd yn y dyfodol. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y ddwy sir wedi sylweddoli bod angen moderneiddio trefniadau i adlewyrchu amgylchiadau a gofynion sydd wedi newid yn sylweddol ers sefydlu'r Cyd-bwyllgor yn 1996, gan gynnwys bod llai o adnoddau ariannol a staff. Y bwriad felly yw y dylai'r bartneriaeth newydd fod yn fwy atebol yn uniongyrchol drwy brosesau democrataidd y ddau gyngor yn hytrach na thrwy endid hyd braich ar wahân ac y dylid adrodd ar y canlyniadau i blant a phobl ifanc gydag ADY a'r cynnydd a wnânt oherwydd ansawdd y darpariaethau a wneir ar eu cyfer yn hytrach nag adrodd ar y prosesau ar gyfer cyflawni'r darpariaethau hynny. Mae trefniadau llywodraethu'r bartneriaeth dan ystyriaeth ar hyn o bryd ond rhagwelir, yn y pen draw, y bydd proses adrodd y bartneriaeth yn dod yn rhan annatod o drefniadau craffu'r ddwy sir ac y bydd felly'n fwy cynhwysol a hygyrch.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd, ynghyd â'r cynigion ar gyfer symud ymlaen gyda sefydlu Partneriaeth ADY newydd.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH**

**4 CYLLIDEB 2016/17**

Cyflwynwyd i'w ystyried a'i gymeradwyo, adroddiad Pennaeth Gwasanaeth Cyllid Cyngor Gwynedd a oedd yn cynnwys Cyllideb y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2016/17.

Adroddodd yr Uwch Gyfrifydd Addysg ar y gwahanol ddarpariaethau a wnaed yn y gyllideb, gan gynnwys newidiadau i gyfraniadau yswiriant gwladol a oedd yn golygu cost ychwanegol o £22k a

DRAFT

chwyddiant cyffredinol fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig ac a oedd yn arwain at gynnydd cyffredinol o tua £47k yn y costau. Nid yw toriad 10% Ynys Môn ar gyfer 2015/16 wedi ei weithredu hyd yma.

Mae cymharu sefydliad staff cyfredol y Cyd-bwyllgor gyda’r lefelau staffio gwirioneddol ym mis Ebrill, 2016 yn golygu bod gostyngiad o £40k yn y costau staffio.

Mae’r rhent a’r tâl gwasanaethau wedi cynyddu oherwydd bod y Cyd-bwyllgor wedi symud i adeilad Penrallt.

Mae cyfraniad Cyngor Gwynedd i’r Cyd-bwyllgor yn codi o £752k i £777k ac mae cyfraniad Cyngor Sir Ynys Môn yn codi o £418k i £432k yn 2016/17. Mae cyfraniad Ynys Môn yn amodol ar gyflawni arbedion o £55,210 ar wasanaethau yn Ynys Môn yn ystod 2016/17 sy'n golygu y bydd cynnydd ychwanegol o £55,210 yng ngyfraniad Ynys Môn os na chaiff yr arbedion hynny eu cyflawni.

Gofynnodd y Cyd-bwyllgor am eglurhad ar y cynnydd mewn perthynas â nodi’r arbedion i'w gwneud gan Ynys Môn.

Cyfeiriodd yr Uwch Gyfrifydd Addysg at swyddi gwag o fewn y sefydliad gydag arbedion o £51k yn y Gwasanaeth Seicoleg Addysg o gymharu â'r gyllideb staffio ac arbedion o £38k yn y Gwasanaeth Gweinyddol, er bod rhaid gosod y rhain yn erbyn gorwariant o £49k ar gostau athrawon a chynorthwywyr dysgu uwch.

Dywedodd Pennaeth Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes Ynys Môn fod rhai swyddi wedi dod i ben yn ystod yr haf gan arwain at ostyngiad mewn costau. Er nad yw Ynys Môn wedi adnabod yr arbedion angenrheidiol hyd yma yn 2015/16, rhybuddiodd y Swyddog yn erbyn symud yn rhy gyflym i weithredu toriadau ar hyn o bryd, yn arbennig yn wyneb y gwaith sy'n mynd rhagddo i sefydlu partneriaeth newydd a’r ailstrwythuro a fydd yn gysylltiedig â’r broses honno. Dywedodd y byddai'n ddoeth disgwyl hyd nes y bydd hanfodion y strwythur newydd yn eu lle a hyd nes y bydd y gofynion yn gliriach cyn mynd ati i wneud toriadau, yn arbennig felly mewn meysydd lle mae'r arbenigedd yn benodol iawn.

**Penderfynwyd cymeradwyo a mabwysiadu'r gyllideb ar gyfer 2016/17 a gofyn i'r swyddogion roi ystyriaeth i doriadau posib.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH**

## 5 ADOLYGIAD O FLWYDDYN ARIANNOL 2015/16

Adroddodd yr Uwch Gyfrifydd Addysg ar lafar fod y Cyd-bwyllgor, yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2015, wedi cael gwybod bod gorwariant o £120k yn debygol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gydag oddeutu £55k ohono yn cronni ar gyfer Ynys Môn a'r gweddill i'w briodoli i gostau uwch. Disgwylir na fydd y sefyllfa wedi newid erbyn pryd y byddir yn cau’r cyfrifon. Gyda golwg ar ddefnyddio’r balansau cyfun yn 2016/17, sef £150k, cynigir bod £65k o'r gorwariant ar y cyd yn cael ei glirio a bod gweddill y balansau’n cael eu dyrannu’n ôl i Ynys Môn a Gwynedd. Er bod Ynys Môn wedi penderfynu defnyddio ei chyfran o'r balansau i fynd i'r afael â'r diffyg, erys swm gweddilliol y bydd rhaid ei ddarganfod. Y canlyniad yw na fydd gan y Cyd-bwyllgor unrhyw falansau ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2015/16 ac felly os bydd unrhyw orwariant yn 2016/17 bydd yr awdurdodau unigol yn cael eu bilio am y swm.

Cyfeiriwyd at secondio seicolegydd i Gyngor Gwynedd a gofynnwyd am eglurhad ar sut mae'r secondiad yn ffitio i mewn i’r sefyllfa arbedion.

Er bod hynny wedi bod yn rhan o'r trafodaethau, dywedodd Pennaeth Addysg Gwynedd mai’r farn oedd bod y secondiad o fudd i’r ddwy sir gan y bydd y naill sir a’r llall yn elwa o’r mewnbwn i’r Strategaeth ar y Cyd.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r sefyllfa.**

## 6 YR UNED DDARPARU – TYMOR YR HYDREF

Cyflwynwyd, er gwybodaeth i'r Cyd-bwyllgor, adroddiad y Prif Seicolegydd Addysg a oedd yn amlinellu gwaith yr Uned Ddarparu yn ystod tymor yr hydref, 2015.

DRAFT

Gan gyfeirio at berfformiad mewn perthynas â nifer y datganiadau terfynol a gynhyrchwyd o fewn yr amserlen statudol, ac yn benodol, y gwahaniaeth rhwng perfformiad Ynys Môn mewn perthynas â DP 15a (o'r holl achosion yn ystod 6 mis cyntaf 2015/16, y ganran o fewn y 26 wythnos, eithriadau ai peidio) sef 8% yn Ynys Môn o gymharu â 36.8% yng Ngwynedd, dywedodd Pennaeth Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn bod hynny'n ganlyniad i oedi gan y Gwasanaeth Iechyd o ran ymateb a rhoi mewnbwn.  Yn dilyn trafodaethau gyda'r Gwasanaeth Iechyd, cyflogwyd pediatregydd ychwanegol a thynhawyd y prosesau o fewn y Cyd-bwyllgor ei hun i hyrwyddo ymateb mwy prydlon gan y Gwasanaeth Iechyd. Gan fod perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn yn DP corfforaethol yn Ynys Môn hefyd, gall effeithio ar berfformiad y gwasanaeth ar lefel gorfforaethol.

Dywedodd Pennaeth Addysg Gwynedd fod y ganran o ddatganiadau o fewn y ddwy sir yn parhau i fod ar lefel rhy uchel; gobeithir y bydd gweithredu'r model newydd o weithio yn arwain at ymyrraeth gynt a gwell.

Nododd y Cyd-bwyllgor fod cyfwerth â 4.9 o seicolegwyr yn gweithio'n uniongyrchol gydag ysgolion - 1.8 yn Ynys Môn (37%) a 3.1 yng Ngwynedd (63%) a bod y lefel hon yn cymharu'n anffafriol â'r ffigwr ym mis Chwefror, 2011 pan oedd cyfwerth ag 8.1 o seicolegwyr. Nododd y Cyd-bwyllgor y byddai argaeledd mwy o seicolegwyr i weithio'n uniongyrchol gydag ysgolion yn debygol o wella ymyrraeth gan ostwng nifer y datganiadau a gyhoeddir.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r adroddiad.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH**

## 7 SWYDDI SEICOLEG – TREFNIADAU AR ÔL HYFFORDDI

Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r Cyd-bwyllgor, adroddiad y Prif Seicolegydd Addysg ar y trefniadau ôl-hyfforddiant ar gyfer y ddau seicolegydd sy'n cael eu hyfforddi ar hyn o bryd a'r goblygiadau ariannol.

Cyfeiriodd y Prif Seicolegydd Addysg at y mewnbwn sydd gan seicolegwyr i'w roi mewn ystod o feysydd ar wahân i weithio gyda phlant yn uniongyrchol mewn ysgolion,  gan gynnwys y meysydd arbenigol hynny a nodwyd yn yr adroddiad e.e. gwaith ymchwil, cynhyrchu deunyddiau a darparu hyfforddiant a allai gyfrannu at wella sefyllfa plant ag ADY. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa bresennol yn golygu ei bod yn anodd iddynt ddarparu gwasanaethau y tu hwnt i'r ddarpariaeth graidd.

Ystyriodd y Cyd-bwyllgor y canlynol -

- Sefyllfa'r ddau seicolegydd dan hyfforddiant ac yn arbennig y telerau yn eu trefniadau ôl-hyfforddiant a ph'un a oedd y rheini'n cynnwys amod a fyddai'n eu hymrwymo i weithio yng Ngwynedd ac Ynys Môn am gyfnod ar ôl iddynt ennill eu cymwysterau.
- Y posibilrwydd o wneud cais i Brifysgol Caerdydd i ganiatáu i'r ddau hyfforddai dreulio blwyddyn ymarfer olaf eu hyfforddiant naill ai yng Ngwynedd neu ym Môn i ennill profiad o weithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Gofynion a swyddi staff yn sgil ymgorffori gwasanaethau cynhwysiad eraill o fewn y modelau partneriaeth newydd. Rhoddwyd gwybod i'r Cyd-bwyllgor fod y ffocws cychwynnol ar anghenion plant ac ysgolion ac y bydd rôl y seicolegwyr o fewn y model newydd yn eglurach unwaith y bydd y strwythur drafft yn ei le.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r adroddiad.**

**CAM GWEITHREDU YN CODI: Prif Swyddogion Addysg y ddwy sir i ystyried y posibilrwydd o wneud cais i Brifysgol Caerdydd er mwyn caniatáu i'r ddau seicolegydd dan hyfforddiant dreulio blwyddyn ymarfer olaf eu hyfforddiant yng Ngwynedd neu Ynys Môn.**

## 8 CYFARFODYDD Y CYD-BWYLLGOR AM Y FLWYDDYN SYDD I DDOD

Derbyniwyd a nodwyd y trefniadau canlynol ar gyfer cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor am y flwyddyn sydd i ddod.

Dydd Gwener 24 Mehefin am 10:30 yn y bore yng Nghaernarfon
Dydd Gwener, 23 Medi, 2016 am 2:00 yn y prynhawn yn Llangefni
Dydd Gwener 18 Tachwedd, 2016 am 10:30 yn y bore yng Nghaernarfon

DRAFFT

Dydd Gwener 17 Mawrth, 2017 am 10:30 yn y bore yn Llangefni

**Y Cynghorydd E. Caerwyn Roberts**

**Cadeirydd**

DRAFFT

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig |
| **DYDDIAD:** | 24ain Mehefin 2016 |
| **TEITL YR ADRODDIAD**: | Adroddiad yr Uned Ddarparu AAA |
| **GWEITHREDU**: | Ystyried yr adroddiad |

**CEFNDIR**: Disgrifir gwaith Uned Ddarparu'r Cyd-Bwyllgor AAA yn ystod Tymor y Gwanwyn, 2016.

# Adroddiad yr Uned Ddarparu AAA

## 1.0 Gweinyddu Prosesau Asesu ac Adolygu

Rydym yn parhau efo'r Rheolwr Gwasanaeth sydd efo ni ar secondiad. Bydd y secondiad yn dod i ben ddiwdd mis Awst eleni.

Rydym bellach wedi penodi aelod newydd i'r tîm gweinyddol dros dro. Mae wedi bod yn gweithio i ni o'r blaen ac rydym yn falch iawn o gael ei gwasanaeth. Rydym erbyn rŵan felly â thîm cryf ac yn gallu cyflawni'n dyletswyddau a'r gofynion sydd arnom, yn cynnwys holl waith weinyddu Asesiadau Statudol a chynnig gwasanaeth ymarferol i'r timau eraill yn yr Uned, yr athrawon arbenigol a'r seicolegwyr.

## 2.0 Gwasanaeth Athrawon Arbenigol

Mae'r gwasanaeth dysgu plant â nam ar y clyw ac â nam ar y golwg yn parhau'n brysur iawn.

Rydym wedi cael cyfarfod efo cwmni sydd yn cynhyrchu offer technolegol newydd ar gyfer nam golwg, ac mae datblygiadau cyffroes yn y maes hwn, yn y ffordd y gellir defnyddio Braille yn yr ysgol a sicrhau mynediad rhwydd i'r cwricwlwm.

Mae'r gwasanaeth iaith a chyfathrebu wedi dechrau newid y ffordd maent yn gweithio fel rhan o Strategaeth newydd y ddau awdurdod.

Mae'r gwasanaeth i blant ag anawsterau corfforol a meddygol yn parhau i allu ymwneud â nifer fawr o blant, am fod gennym ddau aelod o staff yn y maes hwn lle nad oedd ond un yn hanesyddol.

## 3.0 Gwasanaeth Seicoleg Addysgol

Rydym wedi parhau i gynnal gwasanaeth cefnogi ysgolion y ddau awdurdod, yn cynnwys ymwneud â phlant unigol, ymgynghori ar faterion eraill ynglŷn ag anghenion addysgol ychwanegol, a chynnal hyfforddiant o fewn ysgolion unigol ar eu cais nhw.

Rydym hefyd wedi cynnal hyfforddiant yn y Brifysgol ac wedi codi tâl am wneud hyn. Yn sgil hyn, rydym wedi trafod faint o dâl fyddai'n briodol yn y dyfodol ar gyfer gwaith o'r fath. Rydym wedi dechrau trefnu gwybodaeth o'r math o hyfforddiant y byddai'r gwasanaeth yn gallu ei gynnig.

Rydym wedi cael cais gan y Brifysgol i fod yn rhan o'i system asesu myfyrwyr, yn enwedig pan mae'r myfyrwyr rheini'n Gymraeg. Wedi trafod hyn a meddwl amdano, penderfynwyd na fyddai hyn yn ffordd briodol i ni weithredu. Er y byddai'n gallu dod ag incwm i'r gwasanaeth a'r Cyd-bwyllgor, efallai byddai anawsterau i ni weithio yn y rôl hon tra'n gyflogedig i'r Awdurdod. Hefyd, mae'r llwyth gwaith yn debygol o fod yn eithaf trwm.

Rydym wedi cael dwy fyfyrwraig o Brifysgol Caerdydd yn gweithio i ni, un ar fin gorffen ei hyfforddiant yn haf 2016, a'r llall ar ei blwyddyn gyntaf. Roedd yn help mawr i'r seicolegwyr gael gwasanaeth y fyfyrwraig hŷn yn enwedig, ac rydym yn ei llongyfarch am fod yn llwyddiannus yn cael swydd gan Awdurdod Addysg Dinbych, yn dechrau ym mis Medi.

## 4.0 Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r tablau isod yn dangos y nifer o ddatganiadau terfynol a gyhoeddwyd o fewn yr amserlen statudol o 26 wythnos yn ystod y cyfnod Ebrill 1af 2015 – Ebrill 1af 2016 (Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol).

| **Dangosyddion Perfformiad 26 wythnos Gwynedd am y flwyddyn ariannol 1/4/15 – 1/4/16** | |
|---|---|
| Cyfanswm nifer o ddatganiadau terfynol newydd | 38 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **oddi mewn** i 26 wythnos **gydag** eithriadau | 13 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **oddi mewn** i 26 wythnos **heb** eithriadau<br>h.y. oddi mewn i'r terfyn amser a dim eithriadau wedi eu cofnodi | 3 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **dros** 26 wythnosau **gydag** eithriadau<br>h.y. dros y terfyn amser oherwydd, neu'n rhannol oherwydd, ffactorau allanol | 22 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **dros** 26 wythnos **heb** eithriadau<br>h.y. tu hwnt i'r terfyn amser a dim eithriadau wedi eu cofnodi (neb yn hwyr yn cyflwyno eu cyngor o asiantaethau allanol a dim ffactorau oedd y tu hwnt i reolaeth yr adran addysg a/neu'r Cydbwyllgor AAA) | 0 |
| Dangosydd Perfformiad 15a:<br>O'r cyfanswm o achosion ar gyfer y flwyddyn ariannol o 1/4/15 – 1/4/16, beth oedd y ganran **oddi mewn** i'r 26 wythnos, os oedd yna eithriad ai peidio? | 42% |
| Dangosydd Perfformiad 15b:<br>O'r achosion lle nad oedd yna eithriadau, beth oedd y ganran o'r rhai a gwblhawyd oddi mewn i'r 26 wythnos? | 100% |

| **Dangosyddion Perfformiad 26 wythnos Ynys Môn am y flwyddyn ariannol 1/4/15 – 1/4/16** | |
|---|---|
| Cyfanswm nifer o ddatganiadau terfynol newydd | 35 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **oddi mewn** i 26 wythnos **gydag** eithriadau | 6 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **oddi mewn** i 26 wythnos **heb** eithriadau<br>h.y. oddi mewn i'r terfyn amser a dim eithriadau wedi eu cofnodi | 2 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **dros** 26 wythnosau **gydag** eithriadau<br>h.y. dros y terfyn amser oherwydd, neu'n rhannol oherwydd, ffactorau allanol | 27 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **dros** 26 wythnos **heb** eithriadau<br>h.y. tu hwnt i'r terfyn amser a dim eithriadau wedi eu cofnodi (neb yn hwyr yn cyflwyno eu cyngor o asiantaethau allanol a dim ffactorau oedd y tu hwnt i reolaeth yr adran addysg a/neu'r Cydbwyllgor AAA) | 0 |
| Dangosydd Perfformiad 15a:<br>O'r cyfanswm o achosion ar gyfer y 6 mis cyntaf o 2015/16, beth oedd y ganran **oddi mewn** i'r 26 wythnos, os oedd yna eithriad ai peidio? | 23% |
| Dangosydd Perfformiad 15b:<br>O'r achosion lle nad oedd yna eithriadau, beth oedd y ganran o'r rhai a gwblhawyd oddi mewn i'r 26 wythnos? | 100% |

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig |
| **DYDDIAD:** | 24 Mehefin 2016 |
| **TEITL YR ADORDDIAD:** | Datganiad Llywodraethu Blynyddol |
| **GWEITHREDU** | Derbyn a Chymeradwyo y Datganiad Llywodraethu Blynyddol |

**1. CEFNDIR**

1.1 Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 yn gosod gofynion penodol ar gyrff cyhoeddus sydd yn gweithredu trefniadau rheoli partneriaethol trwy gyd-bwyllgorau ffurfiol.

1.2 Gofyniad Rhan 5 yw i'r Cyd-Bwyllgor adolygu a chymeradwyo datganiad rheolaeth fewnol. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei ddarparu i gyd-fynd â'r gofyniad hwn.

1.3 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig dderbyn a chymeradwyo y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

Mae’r datganiad hwn yn cwrdd â’r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 4 o’r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

**Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB**

Sefydlwyd y Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig gan Cyngor Gwynedd a Cyngor Sir Ynys Môn yn 1996 at ddiben darparu gwasanaeth anghenion addysg arbennig drwy gyflawni’r swyddogaethau a fanylir arnynt mewn cytundeb lefel gwasanaeth rhwng y Cyd-bwyllgor a’r awdurdodau.

Mae’r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â’r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei diogelu a’i gyfrifo amdano yn briodol, a’i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae’r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig hefyd yn gyfrifol am gynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, ac sydd yn cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

**Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

Mae’r fframwaith llywodraethu’n cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd hynny sydd yn cyfeirio a rheoli’r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig, a’r gweithgareddau ble mae’n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae’n galluogi’r awdurdodau sydd yn rhan o’r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried os yw’r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae’r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o’r fframwaith llywodraethu ac wedi ei ddylunio i alluogi’r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu’n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisïau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae’r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses parhaus sy’n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy’n berthnasol i gyflawni polisïau, bwriadon ac amcanion y Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig, i werthuso’r tebygolrwydd o risgiau’n cael eu gwireddu ac i isafu’r effaith petai hynny’n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae’r fframwaith llywodraethu berthnasol wedi bod yn ei le ar gyfer y Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig ar gyfer y flwyddyn sy’n diweddu 31 Mawrth 2016 a hyd at ddyddiad cymeradwyo’r datganiad o gyfrifon.

**Rhan 3: Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

### 3.1 Aelodaeth

Mae'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig wedi ei sefydlu yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972 o dan adran 101, adran 102(1) (b) (hawl i ddau neu ragor o awdurdodau benodi cyd bwyllgor), adran 103 (gwariant Cyd-bwyllgor i'w rannu rhwng yr awdurdodau), adran 104 (rheolau arferol awdurdodau lleol ar gyfer gwahardd aelod rhag bod yn aelod pwyllgor ar y cyd) ac adran 105 (gwahardd pleidleislo oherwydd buddiant mewn contractau ayb).

Mae aelodaeth y Cyd-bwyllgor yn cynnwys 7 aelod o Gyngor Gwynedd a 7 aelod o Gyngor Sir Ynys Môn. Penodir yr aelodau gan yr Awdurdod yn unol â rheolau cydbwysedd gwleidyddol sy'n berthnasol i'r Awdurdod hwnnw. Yn ychwanegol mae aelodaeth y Cyd-bwyllgor yn cynnwys 1 aelod a enwebir gan Fwrdd Cyllidol Esgobaethol Bangor sydd â'r hawl i bleidleisio, 1 aelod a enwebir gan yr Eglwys Babyddol sydd â'r hawl i bleidleisio, ac un aelod a enwebir gan yr eglwysi rhyddion nad oes gan yr hawl i bleidleisio.

Mae tymor aelodaeth, yn ogystal â threfniadau penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd, wedi eu diffinio o fewn y Cyfansoddiad.

Mae'r Cyd-bwyllgor yn drefniant parhaol, ac yn unol â'r Cyfansoddiad rhaid i'r naill awdurdod neu'r llall rhoi rhybudd o flwyddyn yn diweddu ar derfyn blwyddyn gyllidol os am dynnu allan o'r trefniant.

### 3.2 Swyddogaethau

Mae'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig yn cyflawni'r canlynol ar ran Cyngor Gwynedd a Cyngor Sir Ynys Môn:

- Darparu gwasanaeth anghenion addysg arbennig drwy gyflawni'r swyddogaethau a fanylir arnynt mewn cytundeb lefel gwasanaeth rhwng y Cyd-bwyllgor a'r awdurdodau.

### 3.3 Strwythur, Rolau a Chyfrifoldebau

Mae Cyfansoddiad yn ei le ar gyfer y Cyd-bwyllgor, yn ddyddiedig 30 Ionawr 2004. Mae'r Cyfansoddiad yn amlinellu'r rolau canlynol

- Bydd holl weithgaredd y Cyd-bwyllgor yn unol â Rheolau Gweithdrefn Cyngor Sir Ynys Môn.
- Darperir cyfleusterau gweinyddol ac ysgrifenyddol i'r Cyd-bwyllgor gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Sir Ynys Môn, a rhennir y gost rhwng y ddau awdurdod.
- Cyflogir staff ar y cyd gan y ddau Awdurdod at ddibenion cyflawni'r swyddogaethau a ddirprwyir i'r Cyd-bwyllgor. Cyflogir staff yn unol ag amodau gwaith Cyngor Sir Ynys Môn ynghyd ag unrhyw amodau ychwanegol a osodir gan y Cyd-bwyllgor. Mae'r Cyfansoddiad yn diffinio hawliau gweithredu'r Cyd-bwyllgor mewn perthynas â materion cyflogaeth staff.
- Darperir gwasanaeth personél i'r Cyd-bwyllgor gan Cyngor Sir Ynys Môn a rhennir y gost rhwng y ddau awdurdod.

- Bydd rheolau cyllidol Cyngor Gwynedd yn berthnasol i holl weithgaredd cyllidol y Cyd-bwyllgor. Rhaid i'r Cyd-bwyllgor adrodd yn flynyddol i'r ddau awdurdod ar ei sefyllfa gyllidol.
- Darperir yr holl wasanaethau cyllidol i'r Cyd-bwyllgor gan Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd a rhennir y gost rhwng y ddau awdurdod.
- Mae gan y Cyd-bwyllgor yr hawl i sefydlu un is-banel neu fwy ac i ddirprwyo rhai o'i swyddogaethau i'r Is-banel(au) ar yr amod nad yw'r dirprwyo hynny yn rhwystro gallu'r Cyd-bwyllgor ei hun i weithredu'r swyddogaethau hynny.

**Rhan 4: EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

Mae'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig yn gyfrifol am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd wedi ei lywio gan waith y rheolwyr gweithredol sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, unrhyw sylw yn adroddiad blynyddol pennaeth archwilio mewnol yr awdurdod lletyol, yn ogystal â sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu eraill ac arolygiaethau.

- Yn unol â Chyfansoddiad y Cyd-bwyllgor, mae ei holl weithgareddau yn unol â Rheolau Sefydlog Cyngor Sir Ynys Môn. O ganlyniad, felly, mae adolygiadau o effeithiolrwydd y Côd Llywodraethu Lleol, y Cyfansoddiad a chyfundrefn rheolaeth fewnol yr awdurdod hwnnw yn ymgorffori sylfaen lywodraethu'r Cyd-bwyllgor hefyd.

Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**.

**Rhan 5: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL**

Mae'r prosesau a ddisgrifir mewn rhannau blaenorol o'r datganiad hwn yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i adnabod unrhyw faterion llywodraethu arwyddocaol sydd angen sylw.

Nid yw'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig o'r farn fod unrhyw faterion o'r fath wedi codi yn ystod asesiad o'i drefniadau llywodraethu sydd yn gwarantu sylw yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yma.

**Rhan 6: BARN**

Rydym yn bwriadau cymryd camau i ddelio gyda'r materion uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon bydd y camau hyn yn delio gyda'r angen i wella adnabuwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

______________________________

**ARWYN THOMAS**
**Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd**

**Dyddiad :**

______________________________

**Y Cynghorydd**
**Cadeirydd y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig**
**Dyddiad :**

______________________________

**DELYTH MOLYNEUX**
**Pennaeth Dysgu, Cyngor Sir Ynys Môn**

**Dyddiad :**

This page is intentionally left blank

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig<br>(Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd) |
| **DYDDIAD** | 24 Mehefin 2016 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 |
| **PWRPAS** | Cyflwyno –<br>• Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2015/16, a<br>• Ffurflen datganiadau cyfrifon , wedi'i ardystio, ond cyn archwiliad. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn a chymeradwyo'r cyfrifon |
| **AWDUR** | William E Jones, Uwch Reolwr Cyllid, Cyngor Gwynedd |

## 1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

1.1 Fel adroddwyd mewn blynyddoedd a fu, mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.

1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau a chynghorau lleol eraill.

1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor 'arweiniol' sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ynglŷn â chyllid Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig Ynys Môn a Gwynedd.

1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn llai na £2.5miliwn, ystyrir y cyd-bwyllgor yn "gyd-bwyllgor bach" a rhaid paratoi'r cyfrifon ar ffurflen datganiadau cyfrifon a ddarparwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

1.6 Bydd y cyfrifon a'r ffurflen yn destun archwiliad gan Deloitte, archwilwyr allanol apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## 2. CYFRIFON 2015/16

2.1 **Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2015/16 yma fel Atodiad A,** ynghyd â sylwadaeth ar y prif wahaniaethau rhwng y gyllideb a'r gwir wariant er gwybodaeth yn unol â'r drefn "arferol", ar ffurf adroddiad "alldro" sydd, hyderaf, yn fwy dealladwy i aelodau weithredu fel "bwrdd rheolaethol".

2.2 **Yn Atodiad B, cyflwynir y ffurflen datganiadau cyfrifon am 2015/16 (cyn archwiliad), wedi'i gwblhau a'i ardystio** gan Dafydd L Edwards, y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor

2.3 Bydd y cyfrifon a'r ffurflen yn destun archwiliad buan gan Deloitte, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Os bydd angen newidiadau yna fe gyflwynir fersiwn diwygiedig i'r Cyd-Bwyllgor ar 23 Medi 2016.

2.4 Ar ôl archwiliad ac unrhyw addasiadau fydd angen, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio'r ffurflen cyn 30 Medi.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 **Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig dderbyn a chymeradwyo'r wybodaeth sydd yn yr atodiadau,** sef –

- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2015/16 – Atodiad A
- Ffurflen datganiadau o'r cyfrifon 2015/16, ar gyfer archwiliad – Atodiad B

# CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

# (CYNGHORAU GWYNEDD A MÔN)

## CYFRIF INCWM A GWARIANT REFENIW 2015/16

| | strwythur staffio 2015/16 (CLIA) | Cyllideb 2015/16 £ | Cyfrifon Terfynol 2015/16 £ | Gwahaniaeth Gor/(Tan)wariant £ |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | |
| Gweithwyr | | | | |
| Cyflogau | | | | |
| - Seicolegwyr | (8.1) | 536,310 | 481,375 | (54,935) |
| - Athrawon Cynhaliol | (7.6) | 390,400 | 511,059 | 120,659 |
| - Gweinyddol | (6.4) | 193,380 | 168,197 | (25,183) |
| Hyfforddiant | | 9,520 | 22,094 | 12,574 |
| Tanysgrifiadau Proffesiynol | | 0 | 2,370 | 2,370 |
| Cost diswyddo | | 0 | 22,849 | 22,849 |
| Yswiriant Atebolrwydd | | 3,000 | 3,000 | 0 |
| Adeilad | | | | |
| Trethi | | 4,940 | 5,206 | 266 |
| Rhent a Gwasanaethau | | 11,630 | 28,300 | 16,670 |
| Cost Ad-leoli Swyddfeydd | | 0 | 2,709 | 2,709 |
| Cludiant | | | | |
| Costau Teithio | | 50,780 | 45,264 | (5,516) |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | | |
| Adnoddau / Deunydd Swyddfa | | 17,480 | 10,534 | (6,946) |
| Hysbysebu Cyfrifon | | 0 | 931 | 931 |
| Ffi Archwilio | | 0 | 920 | 920 |
| Ffôn | | 8,960 | 2,859 | (6,101) |
| Post | | 1,880 | 2,585 | 705 |
| Costau Canolog Ynys Môn | | 1,630 | 1,630 | 0 |
| Costau Canolog Gwynedd | | 4,960 | 4,960 | 0 |
| Arbedion i'w darganfod - Ynys Môn | | (55,210) | 0 | 55,210 |
| Dosrannu'r Gronfa i Cyngor Gwynedd | | 0 | 92,380 | 92,380 |
| Dosrannu'r Gronfa i Cyngor Sir Ynys Môn | | 0 | 58,150 | 58,150 |
| **Cyfanswm Gwariant** | | 1,179,660 | 1,467,372 | 287,712 |
| **Incwm** | | | | |
| Incwm Allanol | | (9,440) | (1,645) | 7,796 |
| Llôg ar falansau | | 0 | (474) | (474) |
| Cyfraniad Craidd - Cyngor Gwynedd | | (752,046) | (752,046) | 0 |
| Cyfraniad Craidd - Cyngor Sir Ynys Môn | | (418,174) | (418,174) | 0 |
| Cyfraniad Ychwanegol - Cyngor Gwynedd | | 0 | (54,800) | (54,800) |
| Cyfraniad Ychwanegol - Cyngor Sir Ynys Môn | | 0 | (89,704) | (89,704) |
| Defnydd o Gronfa - Gwynedd | | 0 | (92,380) | (92,380) |
| Defnydd o Gronfa - Ynys Môn | | 0 | (58,150) | (58,150) |
| **Cyfanswm Incwm** | | (1,179,660) | (1,467,372) | (287,712) |
| **Cyfanswm** | | 0 | 0 | 0 |

| | £ |
|---|---|
| Balans Reserf Cyd-Bwyllgor AAA 31/03/2015 | (150,530) |
| Dosrannu'r Gronfa 01/04/2015 i Cyngor Gwynedd | 92,380 |
| Dosrannu'r Gronfa 01/04/2015 i Cyngor Sir Ynys Môn | 58,150 |
| **Balans Reserf Cyd-Bwyllgor AAA 31/03/2016** | **0** |

## Cyfrifon Terfynol 2015/16 - Prif wahaniaethau

Mae'r cyfrifon terfynol yn dangos gorwariant ar y cyd o £89,294 am y flwyddyn 2015/16 gydag arbedion o £55,210 heb eu darganfod ar ran Ynys Môn.

| Pennawd Gwariant | Gor / (Tan) (£) | Wariant Net (£) |
|---|---|---|
| **Gweithwyr -** | | |
| Seicolegwyr - swyddi dros dro a dan hyfforddiant | (54,935) | |
| Athrawon Cynhaliol - amrywiol | 120,659 | |
| Gweinyddol - swyddi gwag/cyflenwi | (25,183) | |
| Hyfforddiant - strategaeth staff cymwysedig | 12,574 | |
| Cost di-swyddo | 22,849 | |
| Gorwariant - Gweithwyr | | 75,964 |
| **Cyflewnadau -** | | |
| Adeiladau - swyddfeydd Penrallt | 19,645 | |
| Costau Teithio | (5,516) | |
| Adnoddau / Deunydd Swyddfa ayb | (10,491) | |
| Gorwariant - Cyflenwadau | | 3,638 |
| **Arbedion Ynys Môn sydd heb eu darganfod** | | 55,210 |
| **Gorwariant Eraill (balans)** | | 9,692 |
| | | **144,504** |
| **Cyfraniad Ychwanegol Cyngor Gwynedd** | | **(54,800)** |
| **Cyfraniad Ychwanegol Cyngor Sir Ynys Môn** | | **(89,704)** |
| | | **(144,504)** |

## Balans Reserf Cyd-Bwyllgor AAA

Yn unol a phenderfyniad blaenorol y Cyd-Bwyllgor mae balansau'r Cyd-Bwyllgor wedi'i rhannu rhwng Gwynedd a Môn ar gychwyn y flwyddyn ariannol.

| Symudiad yn y reserf | | Balans y reserf (£) | % o'r gyllideb |
|---|---|---|---|
| Balans Reserf Cyd-Bwyllgor AAA 31 Mawrth 2015 | | (150,530) | 12.5 |
| Dosrannu'r Gronfa - Cyngor Gwynedd | 61.37% | 92,380 | |
| Dosrannu'r Gronfa - Cyngor Sir Ynys Môn | 38.63% | 58,150 | |
| **Balans Reserf Cyd-Bwyllgor AAA 31 Mawrth 2016** | | 0 | 0.0 |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cyrff llywodraeth leol llai o faint yng Nghymru
# **Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2016**

Rhaid i gyrff llywodraeth leol llai o faint yng Nghymru baratoi cyfrifon blynyddol gan ddilyn arferion priodol fel y'u nodir yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru/Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) **Governance and accountability for local councils in Wales – A Practitioners' Guide 2006** (y Canllaw i Ymarferwyr). Mae'r Canllaw i Ymarferwyr yn nodi y gall cyrff baratoi eu cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Y cyfrifon a'r broses archwilio

Mae'r cyfrifon a'r trefniadau archwilio yn dilyn y broses a nodir isod.

Bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol/Clerc yn paratoi datganiadau cyfrifyddu a Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Bydd yr uned archwilio mewnol yn cwblhau adroddiad archwilio mewnol. Bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ardystio'r ffurflen (o dan Ran 2 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol) **cyn 30 Mehefin** ac yn cyflwyno'r ffurflen i'r Corff.

→

Bydd y Corff yn cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol erbyn 30 Mehefin. Mae llofnod y Cadeirydd yn y blwch o dan Ran 2 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn dyst o hyn.

Bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol/Clerc yn anfon copi o'r Ffurflen Flynyddol a chopïau ardystiedig o'r dystiolaeth y gofynnwyd amdani at yr archwilydd allanol sy'n gweithredu ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

→

Bydd yr archwilydd allanol yn cwblhau'r archwiliad a:

Naill ai:

Os nad oes angen gwneud unrhyw ddiwygiadau, bydd yn ardystio'r Ffurflen Flynyddol ac yn ei dychwelyd at y Corff i'w chyhoeddi erbyn 30 Medi.

Neu:

Os oes angen gwneud diwygiadau, bydd yn rhoi gwybod i'r corff am broblemau (gan gynnwys diwygiadau). Bydd y Corff yn diwygio'r Ffurflen Flynyddol, bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ei hailardystio a bydd y Corff yn ei hailgymeradwyo cyn ei dychwelyd at yr archwilydd. Yna bydd yr archwilydd yn ardystio'r Ffurflen Flynyddol ac yn ei dychwelyd at y Corff i'w chyhoeddi erbyn 30 Medi.

**Cwblhewch bob adran mewn coch.** Mae'n bosibl y bydd ffurflenni anghyflawn neu anghywir yn galw am waith archwilio allanol ychwanegol ac yn arwain at gostau ychwanegol. Anfonwch y Ffurflen Flynyddol **wreiddiol**, ynghyd â'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani, at yr archwilydd allanol sy'n gweithredu ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. **Noder bod yn rhaid i bob copi a ddarperir at ddibenion yr archwiliad gael eu hardystio fel copïau cywir o'r rhai gwreiddiol gan y Clerc a'r Cadeirydd**. Oni bai y gofynnir i chi wneud hynny, **peidiwch** ag anfon unrhyw gofnodion ariannol gwreiddiol na chofnodion eraill at yr archwilydd allanol.

Dylai cyrff nodi'r newidiadau i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Dylai hyn gael ei gwblhau yn llawn gan bob Corff.

Caiff ffurflenni a archwiliwyd ac a ardystiwyd eu dychwelyd at y Corff i'w cyhoeddi neu er mwyn cyhoeddi'r datganiadau cyfrifyddu, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a thystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Rhestr wirio cwblhau

| Bydd ateb 'Anghywir' yn golygu nad ydych wedi bodloni'r gofynion o bosibl | | Gweithredwyd? | |
|---|---|---|---|
| **Cyflwyniad cyntaf i'r archwilydd allanol** | | **Cywir** | **Anghywir** |
| **Cyfrifon** | A yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi ardystio'r datganiadau cyfrifyddu ac a yw'r corff wedi cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol (fel y dangoswyd gan y llofnodion perthnasol), erbyn 30 Mehefin 2016 fan bellaf? | (•) | ( ) |
| | A yw'r cyfrifon yn cyfrifo'n gywir ac a yw'r balans a gaiff ei barhau o'r llynedd yn cyfateb i'r balans agoriadol eleni? | (•) | ( ) |
| | A yw'r papurau i'w hanfon at yr archwilydd allanol yn cynnwys esboniad o amrywiadau sylweddol, gan gynnwys dadansoddiad wedi ei fesur o'r newidiadau rhwng y llynedd ac eleni? | (•) | ( ) |
| | A yw'r cysoniad banc ar 31 Mawrth 2016 yn gyson â llinell 9? | (•) | ( ) |
| **Pob adran** | A yw'r holl flychau coch wedi'u cwblhau ac a oes esboniadau wedi'u rhoi lle bo angen? | (•) | ( ) |
| | A yw'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani gan yr archwilydd allanol wedi'i hanfon gyda'r Ffurflen Flynyddol hon? Dylech gyfeirio at yr hysbysiad o'r archwiliad ac unrhyw amserlenni ychwanegol a ddarparwyd gan eich archwilydd allanol. | (•) | ( ) |
| **Tystiolaeth ategol** | A yw'r holl eitemau a'r tudalennau o dystiolaeth ategol a ddarparwyd i'r archwiliad wedi eu hardystio fel copi cywir o'r un gwreiddiol gan y Clerc a'r Cadeirydd? | (•) | ( ) |

# Datganiadau cyfrifyddu 2015-16 ar gyfer:

**Enw'r corff:** **Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (Cynghorau Gwynedd a Môn)**

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben | | Nodiadau a chanllawiau i'r sawl sy'n llunio'r cyfrifon |
|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2015 (£) | 31 Mawrth 2016 (£) | Dylech dalgrynnu'r ffigurau i'r £ agosaf. Ni ddylech adael unrhyw flychau yn wag na chofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigur fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol. |
| **Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau** | | | |
| 1. Balansau a ddygwyd ymlaen | **277,156** | **150,530** | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â llinell 7 y flwyddyn flaenorol. |
| 2. (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll | 1,202,787 | 1,314,723 | Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff. |
| 3. (+) Cyfanswm derbyniadau eraill | 5,572 | 2,119 | Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod llai'r symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a refeniw. |
| 4. (-) Costau staff | -1,195,445 | -1,210,944 | Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a threuliau cysylltiedig e.e. costau terfynu. |
| 5. (-) Llog ar fenthyciadau/ ad-daliadau cyfalaf | 0 | 0 | Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl). |
| 6. (-) Cyfanswm taliadau eraill | -139,540 | -256,428 | Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod, a thynnu costau staff (llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (llinell 5). |
| 7. (=) Balansau a barhawyd | **150,530** | **0** | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) - (4+5+6). |
| **Datganiad o falansau** | | | |
| 8. (+) Dyledwyr a balansau stoc | 456 | 31,662 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff a balansau stoc a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn. |
| 9. (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau | 219,455 | 13,948 | **Pob cyfrif:** Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â chysoniad y banc. |
| 10. (-) Credydwyr | -69,381 | -45,610 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw costau benthyg) ar ddiwedd y flwyddyn. |
| 11. (=) Balansau a barhawyd | **150,530** | **0** | **Dylai cyfanswm y balansau fod yn gyson â llinell 7 uchod:** Nodwch gyfanswm (8+9-10). |
| 12. Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor | 0 | 0 | Gwerth **gwreiddiol** cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth. |
| 13. Cyfanswm benthyciadau | 0 | 0 | Balans cyfalaf dyledus pob benthyciad o drydydd partïon ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB). |

| | Ydy | N/Y | Dd/G | Ydy | N/Y | Dd/G | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 14. Nodyn datgelu cronfeydd ymddiriedolaeth | ○ | ○ | ● | ○ | ○ | ● | Mae'r Corff yn gweithredu fel unig ymddiriedolwr ac mae'n gyfrifol am reoli (a) cronfa/cronfeydd ymddiriedolaeth/asedau (dylai darllenwyr nodi nad yw'r ffigurau uchod yn cynnwys unrhyw drafodion ymddiriedolaeth). |

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1)

Rydym yn cydnabod fel aelodau o'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, ein cyfrifoldeb dros sicrhau bod yna system reolaeth fewnol gadarn, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016, ein bod wedi gwneud y canlynol:

| | Cytunwyd? | | Mae 'CYWIR' yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi gwneud y canlynol: | Cyf y Dangosydd Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| | Cywir | Anghywir* | | |
| **1.** Rydym wedi cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) ac arferion priodol. | ● | ○ | Paratoi ei ddatganiadau cyfrifyddu yn y ffordd a ragnodir gan y gyfraith. | 6, 12 |
| **2.** Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac adolygu ei heffeithiolrwydd. | ● | ○ | Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth. | 6, 7 |
| **3.** Rydym wedi cymryd camau rhesymol i roi sicrwydd i'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu bosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor i gynnal ei fusnes nac ar ei sefyllfa ariannol. | ● | ○ | Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny. | 6 |
| **4.** Rydym wedi darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. | ● | ○ | Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â diddordeb archwilio a gofyn cwestiynau am gyfrifon y Corff. | 6, 23 |
| **5.** Rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen. | ● | ○ | Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu'r Corff a delio â hwy'n briodol. | 6, 9 |
| **6.** Rydym wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol. | ● | ○ | Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y Corff. | 6, 8 |
| **7.** Rydym wedi ystyried pa un yw unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, wedi cael effaith ariannol ar y Cyngor/Bwrdd/ Pwyllgor a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu. | ● | ○ | Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol. | 6 |
| **8.** Rydym wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol. | ● | ○ | Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol. | 6, 8, 23 |

| | Do | Naddo | D/G | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **9.** Cronfeydd ymddiriedolaeth – yn rhinwedd ein swydd fel ymddiriedolwr, rydym wedi:<br>• Cyflawni ein cyfrifoldeb mewn perthynas ag atebolrwydd am y gronfa/cronfeydd gan gynnwys cyflwyno adroddiadau ariannol a, lle y bo angen, cynnal archwiliadau annibynnol. | ○ | ○ | ● | Cyflawni ei gyfrifoldebau yn rhinwedd ei swydd fel unig reolwr-ymddiriedolwr ymddiriedolaeth neu ymddiriedolaethau lleol. | 3, 6 |

* Ar ddalen ar wahân, rhowch esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb a nodwyd fel 'Anghywir' a roddwyd; a disgrifiwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 2)

| | Cytunwyd? | | Mae ateb 'Cywir' yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi: | Cyf y Dangosydd Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| | Cywir | Anghywir* | | |
| 1. Gwnaethom gyfrifo a chymeradwyo gofyniad cyllidebol y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16 yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac arferion priodol [ac fe wnaethom osod y praesept yn unol ag Adrannau 39 i 42 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.]* | (•) | ( ) | Cynllunio'n briodol ei weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a phennu cyllideb yn unol â gofynion statudol. | 13 |
| 2. Rydym wedi derbyn adroddiadau ariannol manwl yn nodi'r [incwm a'r gwariant* derbyniadau a thaliadau*] a chrynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor ar sail [misol* / chwarterol*] reolaidd drwy gydol y flwyddyn. | (•) | ( ) | Monitro ei sefyllfa ariannol, ei incwm a'i wariant yn erbyn y gyllideb honno yn effeithiol drwy gydol y flwyddyn. | 13 |
| 3. Rydym wedi sicrhau bod archwiliad mewnol y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor yn annibynnol ar ei broses gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd a'r broses o gynnal y cofnodion cyfrifyddu ac rydym wedi cytuno ar gylch gorchwyl priodol ar gyfer yr archwiliad mewnol. | (•) | ( ) | Sicrhau bod ei swyddogaeth archwilio mewnol yn gallu cyflawni'r gwaith heb wrthdaro buddiannau posibl a chyda digon o gyfle i ddarparu gwasanaeth digonol ac effeithiol. | 8 |

* Dileer fel y bo'n briodol.

## Cymeradwyaeth ac ardystiad y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor

Y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac am baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

| | |
|---|---|
| **Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol**<br>Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, pa un bynnag sy'n berthnasol, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016. | **Cymeradwyaeth gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor**<br>Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod: |
| **Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol:** [signature] | **Llofnod y Cadeirydd:** |
| **Enw:** Dafydd L Edwards | **Enw:** |
| **Dyddiad:** 15/06/16 | **Dyddiad:** |

Dafydd L Edwards
Swyddog Cyllid Statudol
Cyngor Gwynedd

**Ailgymeradwyaeth ac ailardystiad y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor (dim ond os bydd y ffurflen flynyddol wedi ei diwygio yn yr archwiliad y bydd eu hangen)**

| | |
|---|---|
| **Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol**<br>Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, pa un bynnag sy'n berthnasol, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016. | **Cymeradwyaeth gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor**<br>Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod: |
| **Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol:** | **Llofnod y Cadeirydd:** |
| **Enw:** | **Enw:** |
| **Dyddiad:** | **Dyddiad:** |

## Tystysgrif archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r archwilydd allanol yn cynnal yr archwiliad ar ran, ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ar sail ei adolygiad o'r Ffurflen Flynyddol a'r wybodaeth ategol, mae'n nodi pa un a fydd unrhyw fater a ddaw i'w sylw yn peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

Ardystiwn ein bod wedi cwblhau'r archwiliad o'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 ar gyfer:

| **Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (Cynghorau Gwynedd a Môn)** |
|---|

### Adroddiad yr archwilydd allanol

[Ac eithrio'r materion a adroddir isod]* Ar sail ein hadolygiad, yn ein barn ni, mae'r wybodaeth yn y Ffurflen Flynyddol yn cydymffurfio ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i'n sylw sy'n peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

[[Mae'r materion hyn, ynghyd â]* Mae materion eraill nad ydynt yn effeithio ein barn yr ydym yn tynnu sylw'r corff atynt, yn ogystal â'n hargymhellion ar gyfer gwella wedi eu cynnwys yn ein hadroddiad i'r corff, dyddiedig ______________________.]

### Materion eraill ac argymhellion

Ar sail ein hadolygiad, tynnwn sylw'r Corff at y materion a'r argymhellion canlynol nad ydynt yn effeithio ar ein barn archwilio ond y dylai'r Corff ymdrin â hwy.

(Parhewch ar daflen ar wahân os oes angen.)

| **Enw'r archwilydd allanol:** | |
|---|---|
| **Llofnod yr archwilydd allanol:**<br><br>**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru** | **Dyddiad:** |

* Dileer fel y bo'n briodol.

# Adroddiad archwilio mewnol blynyddol ar gyfer:

**Enw'r corff:** **Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (Cynghorau Gwynedd a Môn)**

Mae archwiliad mewnol y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2016.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ba un a oedd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd bwysig, yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor.

| | Cytunwyd? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff) |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cywir | Anghywir* | Dd/G | Heb ei gynnwys** | |
| **1.** Mae'r llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn. | ● | ○ | ○ | ○ | |
| **2.** Bodlonwyd rheoliadau ariannol, cefnogwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW. | ● | ○ | ○ | ○ | |
| **3.** Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli. | ● | ○ | ○ | ○ | |
| **4.** Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol. | ● | ○ | ○ | ○ | |
| **5.** Cafodd yr incwm disgwyliedig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n syth, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW. | ● | ○ | ○ | ○ | |
| **6.** Cefnogwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW. | ○ | ○ | ● | ○ | |
| **7.** Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. | ● | ○ | ○ | ○ | |
| **8.** Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn ac yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol. | ○ | ○ | ● | ○ | |

| | Cytunwyd? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff) |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cywir | Anghywir* | Dd/G | Heb ei gynnwys** | |
| **9.** Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol. | ◉ | ○ | ○ | ○ | |
| **10.** Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u cefnogi gan lwybr archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol. | ◉ | ○ | ○ | ○ | |
| **11.** Cronfeydd ymddiriedolaeth (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol). Mae'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau fel ymddiriedolwr. | ○ | ○ | ○ | ◉ | |

| Roedd rheolaethau digonol yn bodoli ar gyfer unrhyw feysydd risg a nodwyd gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill isod neu ar dudalennau ar wahân os oes angen: | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytunwyd? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff) |
| | Cywir | Anghywir* | Dd/G | Heb ei gynnwys** | |
| **12.** | ○ | ○ | ◉ | ○ | |
| **13.** | ○ | ○ | ◉ | ○ | |
| **14.** | ○ | ○ | ◉ | ○ | |

* Os atebwyd 'Anghywir', nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid rheoli a nodwyd (ychwanegwch dudalennau ar wahân os oes angen).

** Os atebwyd 'heb ei gynnwys', nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i'r archwilydd mewnol esbonio pam nad oes angen hynny.

[Mae fy nghanfyddiadau ac argymhellion manwl yr wyf yn tynnu sylw'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor atynt wedi eu cynnwys yn fy adroddiad manwl i'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, dyddiedig 5 Mai, 2016. * Dilëwch os na chafodd adroddiad ei baratoi.

## Cadarnhau archwiliad mewnol

Cadarnhaf nad wyf, fel archwilydd mewnol y Cyngor, wedi ymgymryd â rôl rheoli na gweinyddol o fewn y corff nac fel aelod o'r corff yn ystod blynyddoedd ariannol 2014-15 a 2015-16. Cadarnhaf hefyd na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ynghylch fy mhenodiad.

| |
|---|
| **Enw'r unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: Luned Fôn Jones** |
| **Llofnod yr unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol:** Luned Fôn Jones |
| **Dyddiad: 02/06/2016** |

## Canllawiau ar gyfer cwblhau Ffurflen Flynyddol

1. Rhaid i chi gymhwyso arferion priodol wrth baratoi'r ffurflen flynyddol hon. Am gyfarwyddyd darllenwch y Canllaw i Ymarferwyr (**Governance and accountability for local councils: A Practitioners's Guide (Wales)**)- ar gael gan Un Llais Cymru ac SLCC. Mae'n cynnwys popeth sydd ei angen arnoch ar gyfer yr archwiliad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a'r archwiliad statudol.
2. Mae Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru (**www.archwilio.cymru/cy/arfer-da/cyllid/arian-cynghorau-cymuned**) yn darparu rhagor o wybodaeth am y broses cyfrifon ac archwilio ynghyd â chanllawiau ar faterion llywodraethu.
3. Gwnewch yn siŵr bod y Ffurflen Flynyddol wedi ei chwblhau'n llawn h.y. dim blychau coch gwag. Ceisiwch osgoi gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r ffurflen wedi'i chwblhau. Os na allwch osgoi hyn, rhowch linell drwy'r cofnodion anghywir, sicrhewch fod y diwygiadau wedi'u tynnu at sylw'r corff gyda llythrennau cyntaf eich enw wrth eu hymyl a'ch bod wedi rhoi esboniad i'r archwilydd allanol. **Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.** Caiff ffurflenni blynyddol anghyflawn neu rai sy'n cynnwys diwygiadau heb eu cymeradwyo a/neu eu hesbonio neu gyda hylif cywiro eu dychwelyd heb eu harchwilio a gall olygu costau ychwanegol.
4. **Mae dau flwch i'r Corff eu hardystio a'u cymeradwyo yn awr. Dim ond os bydd yn rhaid diwygio'r ffurflen flynyddol o ganlyniad i'r archwiliad y bydd angen yr ail flwch. Dim ond cyn anfon y ffurflen at yr archwilydd y dylech gwblhau'r blwch uchaf.**
5. Gofynnwch i ail berson, y Cadeirydd neu aelod efallai, adolygu eich Ffurflen Flynyddol er mwyn sicrhau ei bod yn gyflawn cyn anfon y ffurflen wreiddiol at yr archwilydd.
6. Gwnewch yn siŵr bod eich datganiadau cyfrifyddu yn adio'n gywir, bod y balans a barhawyd o'r flwyddyn flaenorol (llinell 7 o 2015) yn cyfateb i'r balans a ddygwyd ymlaen yn y flwyddyn gyfredol (llinell 1 o 2016). Esboniwch unrhyw wahaniaethau rhwng ffigurau 2015 ar y ffurflen flynyddol hon a'r symiau a gofnodwyd yn ffurflen flynyddol y llynedd.
7. Rhowch esboniad llawn am unrhyw amrywiannau sylweddol yn y datganiadau ariannol. Peidiwch ag anfon copi o'ch cofnodion cyfrifyddu manwl yn lle'r esboniad hwn. Mae'r archwilydd allanol am wybod eich bod chi'n deall y rhesymau dros yr holl amrywiannau. Cofiwch gynnwys dadansoddiad manwl i ategu eich esboniad a byddwch yn benodol ynghylch gwerthoedd elfennau unigol sy'n gyfrifol am yr amrywiannau.
8. Sicrhewch fod y copi o'r cysoniad banc y byddwch yn ei anfon at eich archwilydd gyda'r Ffurflen Flynyddol yn cynnwys eich **holl** gyfrifon banc a balansau banc. Os nad oes unrhyw eitemau cysoni, nodwch hyn a rhowch dystiolaeth o falansau'r banc. Os oes gan eich cyngor unrhyw fuddsoddiadau byrdymor, nodwch eu gwerth ar y cysoniad banc. Dylai'r archwilydd allu cytuno ar eich cysoniad banc â llinell 9 yn adran 1. Ceir rhagor o gymorth ar gysoniadau banc yn y Canllaw i Ymarferwyr*.
9. Mae'n ofynnol i **bob** corff bach bellach anfon gwybodaeth at yr archwilydd allanol, i ategu'r honiadau a wnaed yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Bydd eich archwilydd yn dweud wrthych pa wybodaeth sydd angen i chi ei darparu. Sicrhewch eich bod yn darllen yr hysbysiad archwilio yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae'r archwilydd wedi gofyn amdani. Dylech anfon **copïau** o'r cofnodion gwreiddiol (a ardystiwyd gan y Clerc a'r Cadeirydd fel copïau cywir) at yr archwilydd allanol ac nid y dogfennau gwreiddiol eu hunain.
10. Peidiwch ag anfon unrhyw wybodaeth at yr archwilydd nad yw wedi gofyn yn benodol amdani. Nid yw hyn o fudd.
11. Os bydd yn rhaid i'r archwilydd adolygu gwybodaeth nas gofynnwyd amdani, gofyn eto am wybodaeth, neu os caiff gysoniad banc anghyflawn neu esboniad o amrywiannau neu os caiff ddogfennau gwreiddiol y mae'n rhaid eu dychwelyd, bydd yr archwilydd yn mynd i gostau ychwanegol y mae ganddo hawl i godi ffioedd ychwanegol amdanynt.
12. **Peidiwch â chwblhau Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.** Bydd yr archwilydd allanol yn cwblhau hyn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru pan fydd yr archwiliad wedi ei gwblhau.
13. **Dylech ateb pob gohebiaeth â'r archwilydd allanol yn brydlon.** Bydd hyn yn eich helpu i gyflawni eich rhwymedigaethau statudol a bydd yn lleihau cost yr archwiliad.
14. **Noder, os byddwch yn cwblhau'r ffurflen electronig, rhaid i chi argraffu'r ffurflen er mwyn iddi gael ei hardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a'i llofnodi gan y Cadeirydd cyn iddi gael ei hanfon at yr archwilydd.**